# Cynilo Ieuenctid

Cynlluniwyd y cyfrif cynilo hwn yn benodol ar gyfer cwsmeriaid 18 oed ac iau (eu rhieni / rhieni-cu / gwarcheidwaid y plentyn sy'n dymuno agor cyfrif ar ran y plentyn – ni all unrhyw aelod arall o'r teulu agor y cyfrif, fel brawd, chwaer, modryb, ewythr ac ati) sy'n sy'n chwilio am gyfrif ble gellir adneuo arian a chael mynediad iddo ar unwaith. Dim ond ar gyfer ymgeiswyr newydd sy'n byw yng Nghymru neu aelodau presennol (sy'n byw yn y Deyrnas Unedig) y mae ein cynhyrchion cynilo ar gael.

SWANSEA BUILDING SOCIETY
Sefydlwyd 1923
www.swansea-bs.co.uk

## Blwch crynodeb – Gwybodaeth Allweddol am y Cynnyrch:

| | |
|---|---|
| Enw'r Cyfrif | Cynilo Ieuenctid |
| Beth yw'r gyfradd llog? | • 4.75% GROS / 4.81% AER (Amrywiol) Cyfraddau'n gywir ar 01.12.2023<br>• Mae'r llog yn amrywiol ac fe'i cyfrifir yn ddyddiol a'i ychwanegu at y cyfrif bob hanner blwyddyn ar Fehefin 30 a Rhagfyr 31.<br>• Telir llog yn gros heb i dreth gael ei dynnu. Os yw cyfanswm y llog a enillwch yn fwy na'ch Lwfans Cynilo Personol yna efallai y bydd angen i chi dalu treth yn uniongyrchol i CThEM. Am ragor o wybodaeth ewch i **www.gov.uk** a chwilio am 'Personal Savings Allowance'.<br>• Ystyr AER yw Cyfradd Flynyddol Gyfatebol (Annual Equivalent Rate) ac mae'n darlunio beth fyddai'r gyfradd llog pe telid y llog a'i ychwanegu'n flynyddol.<br>• Nodwch os gwelwch yn dda fod y driniaeth o ran treth a'r gyfradd llog sy'n daladwy, yn dibynnu ar amgylchiadau unigol pob cwsmer, ac fe allant newid yn y dyfodol.<br>• Bydd y gyfradd llog ar gyfer y cyfrif hwn yn cael ei harddangos ar ein gwefan ar www.swansea-bs.co.uk er mwyn i gwsmeriaid gael mynediad a monitro o bryd i'w gilydd yn ôl y galw. |
| A all Swansea Building Society newid y gyfradd llog? | • Gall – mae cyfraddau llog yn amrywiol, sy'n golygu y gall y gyfradd llog fynd i fyny ac i lawr, a gellir eu newid ar unrhyw adeg.<br>• Byddwn ni'n rhoi 14 diwrnod o rybudd ysgrifenedig drwy'r post ynghylch unrhyw newid arfaethedig i'n cyfraddau llog. Byddant hefyd yn cael eu postio ar ein gwefan, www.swansea- bs.co.uk neu gallwch ymweld ag unrhyw un o'n swyddfeydd cangen a restrir ar gefn y daflen hon, neu'u ffonio. Gellir cael manylion am gyfraddau llog cyfrifon cynilo eraill Swansea Building Society yn ein taflen 'Detholiad o Gyfrifon Cynilo' sydd ar gael drwy ymweld ag un o'n canghennau, neu'u ffonio neu ar lein ar www.swansea-bs.co.uk.<br>• Er mwyn deall pam y gallai cyfraddau gael eu gostwng, cyfeiriwch os gwelwch yn dda at ein Telerau ac Amodau Cyffredinol ar gyfer gweinyddu Cyfrifon Cynilo. |
| Beth fyddai'r amcangyfrif o falans ar ôl 12 mis? | • Balans arfaethedig = £1,048.20 (Mae'r ffigwr hwn i bwrpasau darlunio'n unig, ac nid yw'n ystyried amgylchiadau unigol y cwsmern, yn seiliedig ar wneud adnau o £1,000 a dim adneuon ychwanegol, na chodi arian na newid i'r gyfradd llog yn ystod y cyfnod 12 mis.) |
| Sut ydw i'n agor a rheoli fy nghyfrif? | • I agor cyfrif, rhaid i'r phlentyn breswylio yng Nghymru. Galwch yn un o'n canghennau neu llenwch ffurflen gais a'i phostio atom ynghyd â siec sy'n daladwy i 'Swansea Building Society a/c (enw'r plentyn)'. I gael mwy o fanylion am ein proses Adnabod edrychwch ar ein taflen Profi Eich Hunaniaeth sydd ar gael o'n swyddfeydd cangen neu ar lein ar www.swansea-bs.co.uk.<br>• Lleiafswm y buddsoddiad yw £1. Uchafswm y balans y gellir ei ddal ar draws yr holl gyfrifon a ddelir gyda'r Gymdeithas yw £1m*, neu £500k os oedd y cwsmer wedi agor cyfrif gyda'r Gymdeithas am y tro cyntaf ar neu ar ôl 01.03.23. *Sylwer, pan fydd gan gwsmer(iaid) presennol a agorodd gyfrif ar neu cyn 28.02.23 falans ar draws cyfrifon o fwy na £500k, ni fyddant yn cael adneuo arian pellach os yw eu balansau cyfun yn fwy na'r symiau hyn.<br>• Gellir adneuo arian â siec, archeb sefydlog, trosglwyddiad banc electronig, trosglwyddiad o gyfrif arall a ddelir gan y Gymdeithas (yn unol â Thelerau ac Amodau'r cyfrif hwnnw) neu arian parod (cyfyngir adneuon arian parod i £3,000 fesul cwsmer fesul dydd).<br>• Mae'r cyfrif ar agor i bobl sy'n 18 oed neu iau yn unig. Gellir agor uchafswm o bum cyfrif Young Saver gan un person.<br>• Os yw'r cynilwr ifanc y bwriedir y cyfrif ar ei gyfer yn iau na 11 oed, yna rhaid i'r cyfrif gael ei agor a'i weithredu'n unig gan riant / rhiant-cu / gwarcheidwad cyfreithiol y plentyn. Pan fydd y plentyn yn cyrraedd 11 oed, gall rhiant / rhiant-cu / gwarcheidwad cyfreithiol y plentyn wneud cais i newid gweithrediad y cyfrif, naill ai i ganiatâu i'r plentyn weithredu'r cyfrif ar ei ben ei hun, neu i fynnu fod rhiant / rhiant-cu / gwarcheidwad cyfreithiol y plentyn ynghyd â'r plentyn ei hun yn ei weithredu ar y cyd, gan fynnu bod angen llofnod y naill neu'r llall neu'r ddau i godi arian o'r cyfrif. (Bydd angen i gais o'r fath gael ei hysbysu i'r Gymdeithas yn ysgrifenedig). Hyd y derbynnir hysbysiad o'r fath, cyfyngir gweithredu'r cyfrif i rhiant / rhiant-cu / gwarcheidwad cyfreithiol y plentyn yn unig.<br>• Os yw'r cynilwr ifanc yn 11 oed neu hŷn, wedyn gall y cyfrif gael ei weithredu gan rhiant / rhiant-cu / gwarcheidwad cyfreithiol y plentyn yn unig, y plentyn yn unig, neu gellir ei weithredu gan fynnu bod y naill neu'r llall, neu'r ddau, yn llofnodi i alluogi codi arian.<br>• Pan dderbynnir cais i agor cyfrif yn enw'r plentyn yn unig (ac mae'r plentyn yn iau na 16 oed) rhaid i'r rhiant / rhiant-cu / gwarcheidwad cyfreithiol fod yn bresennol adeg agor y cyfrif, pan fo'r cyfrif yn cael ei agor mewn swyddfa gangen, neu rhaid iddynt ddod yn enwedig ar y cyfrif. |

| | |
|---|---|
| Sut ydw i'n agor a rheoli fy nghyfrif? | • Gallwch reoli eich cyfrif mewn cangen, dros e-bost, drwy'r post neu ar lein drwy neges ddiogel (yn ddibynnol ar feini prawf cymhwysedd Cyfrif Swansea Online, ar gael pan fyddwch chi'n clicio ar 'Cofrestru Nawr / Register Now' ar **https://swansea-bs.co.uk/customer-support/online-registration**). |
| Ydw i'n gallu codi arian? | • Ydych, does dim rhaid i chi roi rhybudd cyn cau eich cyfrif na chodi arian ohono.<br>• Gallwch godi arian o'ch cyfrif ar unrhyw adeg heb roi hysbysiad, heb golli llog na chael cosb, drwy ymweld â ni mewn cangen. Neu gallwch anfon eich cyfarwyddyd ysgrifenedig atom wedi'i lofnodi, drwy'r post, dros e-bost neu drwy gyfrwng ein gwasanaeth ar lein Swansea Online gan ddefnyddio'r gwasanaeth anfon neges ddiogel.<br>• Rhaid i bob arian a godir drwy daliad electronig / siec gael ei wneud yn daladwy i'r plentyn sy'n Ddeiliad y Cyfrif. Nodwch os gwelwch yn dda nad yw'r Gymdeithas yn caniatâu codi arian drwy gyfrwng taliad electronig / siec sy'n daladwy i drydydd parti. Serch hynny, pan ddaw cais gan y rhiant / mam-gu neu dad-cu / gwarchodwr cyfreithiol a gysylltir â'r cyfrif, gellir gwneud taliad electronig / siec sy'n daladwy i'r rhiant / mam-gu neu dad-cu / gwarchodwr cyfreithiol sydd, drwy wneud y cais i godi arian, yn cadarnhau fod yr arian a godir er budd uniongyrchol y plentyn yn unig. Mae'r Gymdeithas yn neilltuo'r hawl i wrthod cais i godi arian os yw'n credu nad dyma'r achos.<br>• Y lleiafswm y gellir ei godi yw £1 (neu lai os yw'r cyfrif yn cael ei gau). Isafswm y balans y mae angen ei ddal yn y cyfrif hwn yw £1.<br>• Uchafswm yr arian y gellir ei godi fesul cwsmer fesul dydd yw £1,000 |
| Gwybodaeth Ychwanegol | • I weld y Telerau ac Amodau Cyffredinol sy'n berthnasol i'r cyfrif hwn, gweler "Telerau ac Amodau Cyffredinol ar gyfer gweithredu Cyfrifon Cynilo", sydd ar gael o'n canghennau neu ar lein ar www.swansea-bs.co.uk.<br>• Mae'r Gymdeithas yn rhan o'r Cynllun Iawndal Gwasanaethau Ariannol (FSCS). Gellir gweld manylion y cynllun a phwy sy'n cael eu gwarchod ganddo ar www.fscs.org.uk.<br>• Fe all costau a ffioedd gwasanaeth fod yn berthnasol i'ch cyfrif. Amlinellir y rhain yn ein Toll Cynilo.<br>• Dan rai amgylchiadau, fe allwn wrthod cyfarwyddyd i weithredu cyfrif. Amlinellir yr amgylchiadau hyn yn ein Telerau ac Amodau Cyffredinol ar gyfer gweithredu Cyfrifon Cynilo.<br>• Mae'r cyfrif at ddefnydd personol, nid ar gyfer busnes, oni bai ei fod yn un o'n cyfrifon arbennig ar gyfer sefydliadau. |
| Telerau ac Amodau Penodol ar gyfer Cyfrif Cynilo Ieuenctid | **1. Agor y cyfrif a Therfynau Buddsoddi:**<br>Gellir ond agor y cyfrif hwn gan, neu ar ran, personau dan 19 oed. Pan fydd deiliad y cyfrif yn cyrraedd 19 oed, trosglwyddir balans y cyfrif i gyfrif addas gyda Swansea Building Society oni bai fod cyfarwyddyd arall wedi'i dderbyn. Byddwn ni'n ysgrifennu at ddeiliad y cyfrif cyn yr adeg hon gan esbonio pa ddewisiadau sydd ar gael, gan gynnwys cau'r cyfrif a chodi'r arian.<br>Os yw'r cynilwr ifanc yn 11 oed neu hŷn pan agorir y cyfrif, wedyn gall y cyfrif gael ei weithredu gan rhiant / rhiant-cu / gwarcheidwad cyfreithiol y plentyn yn unig, y plentyn yn unig, neu gellir ei weithredu gan fynnu bod y naill neu'r llall, neu'r ddau, yn llofnodi i alluogi codi arian.<br>Pan dderbynnir cais i agor cyfrif yn enw'r plentyn yn unig (ac mae'r plentyn yn iau na 16 oed) heb fod y rhiant / rhiant-cu / gwarcheidwad cyfreithiol yn bresennol, ni ellir agor y cyfrif oni bai fod y rhiant / rhiant-cu / gwarcheidwad cyfreithiol yn mynd yng nghwmni'r plentyn adeg agor y cyfrif, neu rhaid iddynt ddod yn enwedig ar y cyfrif.<br>Agorir y cyfrif yn enw'r plentyn yn unig a'r plentyn fydd unig berchennog buddiol pob arian a ddelir neu a fuddsoddir yn y cyfrif, a phob difidend neu log sy'n crynhoi yno ymhob amgylchiad.<br>**2. Terfynau Buddsoddi:**<br>Lleiafswm y buddsoddiad yw £1. Uchafswm y balans y gellir ei ddal ar draws yr holl gyfrifon a ddelir gyda'r Gymdeithas yw £1m*, neu £500k os oedd y cwsmer wedi agor cyfrif gyda'r Gymdeithas am y tro cyntaf ar neu ar ôl 01.03.23. *Sylwer, pan fydd gan gwsmer(iaid) presennol a agorodd gyfrif ar neu cyn 28.02.23 falans ar draws cyfrifon o fwy na £500k, ni fyddant yn cael adneuo arian pellach os yw eu balansau cyfun yn fwy na'r symiau hyn.<br>**3. Buddsoddi Pellach:**<br>Gallwch ychwanegu at eich cynilon ar unrhyw adeg, drwy alw yn eich cangen leol â'ch adnau. Os yw'n fwy cyfleus, gallwch bostio'r adnau, gwneud taliad drwy drosglwyddiad banc electronig neu gynilo ag archeb sefydlog o gyfrif banc neu gymdeithas adeiladu a leolir yn y DU. *Sylwer, pan fydd gan gwsmer(iaid) presennol a agorodd gyfrif ar neu cyn 28.02.23 falans ar draws cyfrifon o fwy na £500k, ni fyddant yn cael adneuo arian pellach os yw eu balansau cyfun yn fwy na'r symiau hyn. |

| | |
|---|---|
| Telerau ac Amodau Penodol ar gyfer Cyfrif Cynilo Ieuenctid | **4. Codi Arian:**<br>Gallwch godi arian o'ch cyfrif heb roi rhybudd yn unol â chyfyngiadau'r Gymdeithas. Dangosir manylion ein terfynau codi arian parod, siec a thaliadau electronig yn ein swyddfeydd cangen ac ar ein gwefan. Nodwch os gwelwch yn dda nad yw'r Gymdeithas yn caniatâu i sieciau a godir o'n swyddfeydd cangen / taliadau electronig gael eu gwneud i drydydd parti. Rhaid i bob taliad electronig / siec fod yn daladwy i'r plentyn sy'n Ddeiliad y Cyfrif. Serch hynny, pan fod rhiant wedi'i gysylltu â'r cyfrif, gellir gwneud taliad electronig / siec i'r rhiant / mam-gu neu dad-cu / gwarchodwr cyfreithiol sydd, drwy wneud y cais i godi arian, yn cadarnhau fod yr arian a godir er budd uniongyrchol y plentyn yn unig. Mae'r Gymdeithas yn neilltuo'r hawl i wrthod cais i godi arian os yw'n credu nad dyma'r achos.<br><br>**5. Llog:**<br>Mae'r llog yn amrywio ac fe'i cyfrifir yn ddyddiol ar y balans sydd yn y cyfrif. Credydir llog i'r cyfrif bob hanner blwyddyn ar ôl terfyn busnes ar Fehefin 30 a Rhagfyr 31. Anfonir datganiadau allan yn flynyddol ar Ragfyr 31.<br><br>**6. Telerau ac Amodau:**<br>Mae'r Telerau ac Amodau Cynnyrch penodol hyn yn berthnasol i'r cyfrif hwn yn ogystal â'n Telerau ac Amodau Cyffredinol ar gyfer Cyfrifon Cynilo. Pan fydd unrhyw anghysondeb rhwng y Telerau ac Amodau Cyffredinol ar gyfer Cyfrifon Cynilo a'r Telerau ac Amodau Cynnyrch penodol, y Telerau ac Amodau Cynnyrch penodol fydd yn berthnasol. |

**Mae'r wybodaeth a ddarperir yn fersiwn gryno o nodweddion allweddol y cyfrif cynilo, ac ni fwriedir iddynt fod yn lle darllen y telerau ac amodau sy'n berthnasol i'r cyfrif.**


SWANSEA BUILDING SOCIETY
Sefydlwyd 1923
www.swansea-bs.co.uk

**Caerfyrddin**
13-14 Heol Awst, Caerfyrddin SA31 3AQ
01267 611950 | carmarthen@swansea-bs.co.uk

**Y Bont-faen**
75 Stryd Fawr, Y Bont-faen, CF71 7AF
01446 506000 | cowbridge@swansea-bs.co.uk

**Y Mwmbwls**
496 Heol Mwmbwls, Abertawe SA3 4BX
01792 739200 | mumbles@swansea-bs.co.uk

**Abertawe**
1-4 Stryd Portland, Abertawe, SA1 3DH
01792 739100 | swansea@swansea-bs.co.uk



Awdurdodir Swansea Building Society gan yr Awdurdod Rheoleiddio Ariannol a'i reoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol a'r Awdurdod Rheoleiddio Ariannol. Rhif Cofrestr Gwasanaethau Ariannol: 206066

fscs Protected



SBS (CYSP 1123)